

Rhif Cais: C20/0153/11/LL

Dyddiad Cofrestru: 17.02.20

Math o Gais: Cais Llawn

Lleoliad: Psychology Block Stryd Deiniol, Bangor, Gwynedd, LL57 2AY

Cymuned: Bangor

Ward: Menai (Bangor)

Bwriad: Estyniad i greu lifft a linc cysylltiedig/Extension to create a lift and associated link

Crynodeb o'r Argymhelliad: Caniatau gydag amodau.



1. Disgrifiad:

Mae'r cais diweddaraf hwn yn ymwneud a gosod lifft fel rhan o gynlluniau'r Brifysgol i adnewyddu a gwella'r adeilad presennol ar gyfer cyfleuster addysg meddygol (dysgu anatomeg). Mae caniataid cynllunio eisoes wedi ei roi o dan cyfeirnod C19/0896/11/LL yn Hydref, 2019 ar gyfer gwaith gwella ehangach i'r adeilad ei hun ac mae'r gwaith yma eisoes wedi ei ddechrau ar y safle. Byddai'r lifft yn caniatau mynediad i'r llawr cyntaf i ddefnyddwyr cadair olwyn ynghyd a'r anabl sy'n gallu cerdded/*ambulant* yn uniongyrchol o'r maes parcio cyfagos. Mae digon o wagle o fewn yr adeilad presennol i ymglyffori'r lifft heb yr angen i gollu gwagle o fewn yr adeilad ei hun - bydd wedi ei leoli o fewn rhan o'r estyniad newydd a ganiatwyd yn flaenorol. Bydd o wneuthuriad/edrychiadau allanol sy'n parhau gyda edrychiadau allanol y rhan newydd o'r adeilad, sef, gwaith bric glan i'r rhannau isaf gyda waliau o rendr lliw hufen uwchben. Bydd yn mesur 1.82m o led, 2.17m o hyd (mesuriadau mewnol) gyda uchder o 5.9m uwchben lefel y maes parcio cyfagos.

Mae'r adeilad presennol yn floc cyfoes gyda tho fflat wedi ei leoli y tu cefn i adeiladau anheddol ar hyd Ffordd y Coleg i'r gorllewin a Stryd y Parc i'r dwyrain. Saif i'r gorllewin o brif adeiladau'r Brifysgol (Adeilad *Brigantia*) o fewn ffiniau Ardal Gadwraeth mewn ardal gymysg o Ganolfan Is-Ranbarthol Bangor fel y'i diffinnir gan Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn (CDLL). Fe gyflwynwyd Datganiad Dyluniad a Mynediad bur i gefnogi'r cais diweddaraf hwn.

2. Polisiau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â champau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017:-

ISA3 : Datblygiadau addysg bellach ac uwch

PCYFF2: Meini prawf datblygu
PCYFF3 : Dylunio a siapiao lle
PS20: Diogelu a ble'n briodol gwella asedau treftadaeth

2.4 Polisiâu Cenedlaethol:

PCC: Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10, Tachwedd 2018

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016)

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2016)

3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

Cais rhif C19/0896/11/LL - Codi ffens preifatrwydd, system echdynnu a chyfarpar allanol a mynedfa dan gysgod wedi ei ganiatau yn Hydref, 2019.

Cais rhif C20/0185/11/DA - Cais ar gyfer diwygiad ansylweddol i ganiatad cynllunio rhif C19/0896/11/LL ar gyfer amnewid to canopi lwfer yr ardal peiriannau i do math soled wedi ei ganiatau ym Mawrth, 2020.

4. Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned/Tref: Heb eu derbyn.

Ymgynghoriad Cyhoeddus:

Rhoddwyd rhybudd ar y safle ac mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan y cyhoedd i'r cais diweddaraf hwn.

5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

Egwyddor y Datblygiad

Mae'n ofynnol gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLL) yw'r 'Cynllun Datblygu' mabwysiedig yn yr achos yma.

Y prif bolisi cynllunio sy'n berthnasol i'r cais hwn yw polisi ISA 3 y CDLL. Mae'r polisi hwn yn gefnogol o ddarparu cyfleusterau er dibenion academaidd cyn belled a bo ystyriaethau lleol, megis mwynderau, yn dderbyniol. Rhoddir blaenoriaeth i ail-defnyddio adeiladau presennol. Gan ystyried bod yr egwyddor o ymestyn ac ymgymryd a gwaith i wella'r cyfleuster hwn eisoes wedi ei ganiatau yn Hydref, 2019 ynghyd ac ystyried graddfa a natur y gwaith diweddaraf credir byddai'r bwriad yn cydymffurfio ac egwyddor Polisi ISA 3 o'r CDLL.

Mwynderau cyffredinol a phreswyl

Yn gyffredinol, mae polisiâu PCYFF2 a PCYFF3 y CDLL yn annog caniatáu cynigion ar gyfer datblygiadau/estyniadau newydd cyn belled na fyddent yn cael effaith niweidiol ar iechyd, diogelwch neu fwynderau meddianwyr eiddo lleol neu ar yr ardal yn gyffredinol.

Nid oes unrhyw rhinweddau pensaernïol i'r adeilad presennol ac yn wir fe gredir y byddai'r newidiadau a'u cynigir yn bresennol ac yn flaenrol yn cynorthwyo i dacluso'r ardal o gwmpas yr adeilad a gwella ei ansawdd gweledol. Credir, felly, bod y bwriad diweddaraf hwn yn dderbyniol o safbwynt ei effaith weledol ac yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi PCYFF2 a PCYFF3 o'r CDLL fel y maent yn ymwneud a'r materion hynny. Yn ogystal, ni ystyrir y byddai unrhyw effaith arwyddocaol ar yr Ardal Gadwraeth, yn wir fe fyddai'r gwelliannau strwythurol yn welliant i ansawdd yr ardal ddynodedig. Credir, felly, bod y cynnig

yn dderbyniol dan Bolisi PS20 fel y mae'n ymwneud â diogelu neu wella Ardaloedd Cadwraeth.

6. Casgliadau:

Fe ystyrir y byddai'r datblygiad diweddaraf hwn yn dderbyniol o safbwynt y polisïau perthnasol a nodir uchod ac ni ystyrir y byddai'n cael effaith niweidiol andwyol ar fwynderau'r ardal na'r trigolion cyfagos. Yn ogystal, ystyrir bod lleoliad, dyluniad, gorffeniad a ffurf y datblygiad yn dderbyniol ac yn cydweddu â chyd-destun ei leoliad. Wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r holl faterion cynllunio perthnasol, ystyrir fod y datblygiad yn addas ar gyfer y safle a'i fod yn cydymffurfio gyda'r polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol a nodir.

7. Argymhelliad:

7.1 Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

1 - Rhaid cychwyn ar y datblygiad y cyfeirir ato yn y caniatâd hwn dim hwyrach na PHUM mlynedd o ddyddiad y caniatâd.

The development to which this permission relates shall be begun not later than FIVE years from the date of this permission.

2 - Cwblheir y datblygiad a ganiateir drwy hyn yn llwyr unol â'r manylion a ddangosir ar gynllun(iau) rhif 000415-K2A-B1-ZZ-DR-A-20-002 Rev. P01, 000415-K2A-B1-ZZ-DR-A-20-005 Rev. P01, 000415-K2A-B1-ZZ-DR-A-20-011-Rev. P01, 000415-K2A-B1-ZZ-DR-A-20-050 Rev. P03, 000415-K2A-B1-ZZ-DR-A-20-051 Rev. P03 a CLXX(11)1001 a gyflwynwyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, ac a gynhwysir yn y ffurflen gais ac mewn unrhyw ddogfennau eraill gyda'r cais, os nad oes amod(au) sy'n ei diwygio wedi ei gynnwys ar y dyfarniad cynllunio hwn.

The development hereby permitted shall be carried out in strict conformity with the details shown on the plan(s) numbered 000415-K2A-B1-ZZ-DR-A-20-002 Rev. P01, 000415-K2A-B1-ZZ-DR-A-20-005 Rev. P01, 000415-K2A-B1-ZZ-DR-A-20-011-Rev. P01, 000415-K2A-B1-ZZ-DR-A-20-050 Rev. P03, 000415-K2A-B1-ZZ-DR-A-20-051 Rev. P03 and CLXX(11)1001